

GALWAD AGORED

Gweithwyr llawrydd neu gwmnïau
i greu fideo rhagarweiniol,
ffeithlun a ffilmiau byrion



Mae ArtWorks Cymru yn bartneriaeth o sefydliadau ac artistiaid sy'n datblygu ymarfer yn y celfyddydau cyfranogol, cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus artistiaid ac eirioli dros y celfyddydau cyfranogol yng Nghymru. Ariennir rhaglen 2019-21 ArtWorks Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Paul Hamlyn Foundation. Mae yna tair elfen i'r rhaglen gyfredol:

Prosiect Astudiaethau Achos yr Egwyddorion Ansawdd: mae sefydliadau ac artistiaid yn creu astudiaethau achos er mwyn rhannu dulliau o weithio yn seiliedig ar eu profiadau nhw o ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd i gynllunio a chynnal gweithgareddau.

Llwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru: rhaglen beilot sy'n cefnogi artistiaid llawrydd yn y maes cyfranogol i ddatblygu ac i feithrin eu gwaith a'u llwybrau proffesiynol.

Sesiynau Hyfforddi Partneriaid: cyfres o sesiynau hyfforddi a digwyddiadau rhwydweithio yn canolbwyntio ar faterion o bwys i sector y celfyddydau cyfranogol ac i roi'r cyfle i rannu profiadau a dulliau o weithio.

Y PROSIECT

Mae partneriaid ArtWorks Cymru yn frwd i ddatblygu rhai adnoddau newydd er mwyn rhannu dulliau o weithio gyda'r Egwyddorion Ansawdd, cynnig cymorth ymarferol i'w defnyddio wrth gynllunio neu gynnal gweithgareddau, a rhannu'r hyn a ddysgwyd yn y cynllun peilot Llwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru.

Dymuna ArtWorks Cymru gomisiynu:

- Fideo wedi'i darlunio neu ei animeiddio i gyflwyno pobl i weithio gyda'r Egwyddorion Ansawdd
- Ffeithlun yn esbonio'r 9 Egwyddor Ansawdd
- Chwe ffilm fer yn dangos casgliad o brosiectau'r Astudiaethau Achos a phrofiadau Llwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru

Bwriedir cyhoeddi'r adnoddau newydd ar wefan ArtWorks Cymru, ar gael i bawb eu defnyddio, ac i ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael eisoes. Mae'r prosiect yma'n rhan o adolygiad ehangach o'r wefan er mwyn creu llwybrau syml a chilir i ddod o hyd i wybodaeth a chanllawiau ymarferol ar weithio yn y maes cyfranogol.

Bydd yr adnoddau newydd hefyd yn rhan o ymgyrch cyfathrebu i hyrwyddo'r Egwyddorion Ansawdd fel fframwaith ar gyfer cynllunio, cynnal a gwerthuso gweithgareddau a phrosiectau.

FIDEO RHAGARWEINIOL A FFEITHLUN

Dymuna ArtWorks Cymru gomisiynu fideo, yn cynnwys darluniau neu animeiddio, fydd yn cyflwyno pobl i weithio gyda'r Egwyddorion Ansawdd. Bydd ArtWorks Cymru'n datblygu'r sript neu'r testun ar gyfer y fideo, mewn trafodaeth gyda chynhyrhydd y fideo, ac yn darparu hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Telir unrhyw gostau cyfieithu gan ArtWorks Cymru.

Mae'r comisiwn yn cynnwys creu darluniau neu animeiddiadau, cynhyrchu'r fideo gan ymgorffori capsionau a cherddoriaeth.

Anelir y fideo at gynulleidfa o artistiaid a sefydliadau neu grwpiau sydd yn cynnal gweithgareddau celfyddydol cyfranogol mewn amrywiaeth o leoliadau, neu sydd efallai newydd ddechrau ar y math yma o waith. Bydd y fideo'n esbonio beth yw'r Egwyddorion Ansawdd a sut y maent yn gallu'ch cefnogi i osod fframwaith ar gyfer cynllunio, cynnal a gwerthuso gweithgareddau a phrosiectau. Bydd yn cynnwys cyngor ymarferol ac yn cyfeirio gwylwyr at wybodaeth ac adnoddau defnyddiol.

Mae'r comisiwn yn cynnwys creu ffeithlun o'r 9 Egwyddor Ansawdd, a fydd yn rhan o'r fideo ac a fydd ar gael i'w ddefnyddio fel ased annibynnol yn ogystal. Bydd y ffeithlun yn cyflwyno pob un o'r 9 Egwyddor Ansawdd mewn ffordd weledol, ynghyd â thestun syml i ddisgrifio pob egwyddor.

Allbynnau a ddisgwylir

- Fideo rhwng 1 - 2 funud o hyd, gyda fersiwn Cymraeg a Saesneg
- Dylai'r fideo gynnwys capsionau, os oes llais ar y fideo
- Detholiad o ddelweddau o'r fideo, i'w ddefnyddio fel asedau ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol
- Ffeithlun o'r 9 Egwyddor Ansawdd

Amserlen: I'w gwblhau erbyn 31 Mai 2021

Cyllideb: £950 yn cynnwys TAW

FFILMAU BYRION

Dymuna ArtWorks Cymru greu casgliad o ffilmiau byrion i gyflwyno cynllun peilot Llwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru ac i ddysgu mwy am rai o'r prosiectau a gynhaliwyd gan y partneriaid sydd wedi bod yn defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd. Bydd y ffilmiau yn seiliedig ar gyfweiliadau, ac yn cynnwys artistiaid a chyfranwyr y rhaglenni.

Bydd ArtWorks Cymru'n gweithio gyda'r gwneuthurwr ffilm i sicrhau bod cynllun mewn lle i ddilyn canllawiau diogelwch Covid-19 cyfredol er mwyn cynnal y cyfweiliadau. Bydd ArtWorks Cymru yn mynychu'r cyfweiliadau gyda'r gwneuthurwr ffilm, boed mewn person neu ar-lein, ac yn drafftio'r cwestiynau ar gyfer y cyfweiliad.

Darperir cyfieithiadau o drawsgrifiadau'r cyfweiliadau, i'w ddefnyddio fel capsionau.

Allbynnau a ddisgwylir

- 5 ffilm fer, hyd at 2 funud o hyd yr un, yn cynnwys un prosiect Astudiaeth Achos yr un.
- 1 ffilm fer, hyd at 2 funud o hyd, yn cynnwys cyfweiliadau gyda chasgliad o hyfforddwyr ac artistiaid fu'n rhan o Lwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru.
- Dau fersiwn o bob ffilm, un gyda chapsionau yn Gymraeg ac un gyda chapsionau yn Saesneg.

Amserlen: I'w gwblhau erbyn 7 Mehefin 2021.

Cyllideb: £750 yn cynnwys TAW.

Cynigir costau teithio ar gyfer ffilmio'r cyfweiliadau ar leoliad, yn seiliedig ar gytundeb o flaen llaw gydag ArtWorks Cymru.

SUT I FYNEGI DIDDORDEB

I fynegi diddordeb mewn naill un o'r cyfleoedd yma, anfonwch eich CV a/neu ddolen i bortffolio neu esiamplau o'ch gwaith erbyn **5.00pm ddydd Gwener 30 Ebrill 2021** at:

Elinor Robson, Rheolwr Partneriaeth ArtWorks Cymru

artworkscymru@artsactive.org.uk